YOUR FIRE AND RESCUE SERVICE
RIGHT PLACE
RIGHT TIME
RIGHT SKILLS

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys 2023

Ffurfiwyd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn 1996, ond mae ein darpariaeth frys a’n trefniadau criwio a lleoliadau wedi’u seilio ar fodelau sydd wedi bod yn gymharol ddigyfnewid ers diwedd yr ail ryfel byd.

Wrth gwrs, mae Gogledd Cymru a’r risgiau sy'n wynebu'r cyhoedd wedi parhau i esblygu ers hynny. Yn 2008, gwnaethom sefydlu ein hunain fel gwasanaeth ataliol yn ogystal â gwasanaeth ymatebol, ac yn y blynyddoedd canlynol rydym wedi ymdrechu i leihau’r achosion o danau a’r marwolaethau a’r anafiadau o ganlyniad iddynt.

Mae risgiau eraill wedi dod i'r amlwg yn y cyfamser hefyd, gyda newid hinsawdd wedi arwain at gynnydd yn amlder a difrifoldeb tanau gwyllt a llifogydd, a datblygiadau technolegol fel paneli solar a cherbydau trydan wedi creu peryglon newydd i'r cyhoedd ac i'n diffoddwyr tân.

Ers i ni ddechrau cefnogi ein cydweithwyr eraill yn y sector brys, rydym wedi gweld cynnydd yn yr hyn rydym ni’n ei alw’n alwadau gwasanaeth arbennig.  O ganlyniad, rydym bellach yn fwy o Wasanaeth Achub na Gwasanaeth Tân ac Achub.

Er y gallwn ymdrechu i wella ein darpariaeth a'n perfformiad cyfartalog, bydd yna rai ardaloedd, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig, lle gallai ein hymateb fod yn fwy effeithiol.

Rydym hefyd angen cydnabod yr angen i hyfforddi ein diffoddwyr tân, a hynny er mwyn eu cadw nhw a’r cyhoedd yn ddiogel a sicrhau bod ein hymateb o’r safon uchaf posibl.

Er mwyn cyflawni hyn oll, bydd angen i ni fod yn y lle iawn, ar yr adeg iawn, gyda'r sgiliau iawn.

Ar hyn o bryd, dim ond wyth o'n gorsafoedd tân all warantu darpariaeth frys, ac mae’r rheiny i’w cael yn bennaf ar hyd coridor ffordd ddeuol yr A55/A483 o fewn y rhanbarth. Mewn ardaloedd eraill rydym yn dibynnu ar ddiffoddwyr tân rhan amser neu rai ar alwad, ac mae eu hymrwymiadau eraill yn golygu ei bod yn anodd sicrhau eu bod ar gael i ymateb i alwadau yn ystod y dydd.

Felly, rydym wedi bod yn archwilio senarios ar gyfer darpariaeth frys yn y dyfodol, gyda'r bwriad o wella'r ddarpariaeth yn ogystal â chydnabod yr heriau ariannol sy’n bodoli ar hyn o bryd. Rydym wedi gweithio gydag arbenigwyr annibynnol er mwyn modelu yn union sut y gallem gael y gorau o'n hadnoddau ac ymateb yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.

# Sut cafodd Modelu a Dadansoddi Data ei ddefnyddio er mwyn datblygu opsiynau?

YOUR FIRE AND RESCUE SERVICE
RIGHT PLACE
RIGHT TIME
RIGHT SKILLS

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

ORH
PLAN. PREPARE. PERFORM.

Cysylltodd y Gwasanaeth â ORH - 'cwmni sy'n helpu gwasanaethau brys ledled y byd i wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau ac i ymateb yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon'.

**Amcan y Prosiect:**
Yr amcan gyffredinol oedd cefnogi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) trwy gynnal adolygiad sy'n seiliedig ar ddata o'r risg yng Ngogledd Cymru a'r ffordd orau o ddosbarthu adnoddau er mwyn rheoli'r risgiau hyn.

- Defnyddiwyd gwerth pum mlynedd o ddata digwyddiadau a lleoliadau (2017/18 – 2021/22), ynghyd â
- data argaeledd diffoddwyr tân ar-alwad o 2018

**Cwmpas y Prosiect:**
- Cynnal ymarfer **casglu a dadansoddi data** er mwyn ein galluogi i fodelu'r ddarpariaeth o wasanaeth tân o fewn GTAGC.
- Cynnal **adolygiad o'r risgiau allweddol**, gorsafoedd a threfniadau criwio yng Ngogledd Cymru, a sut y gellid defnyddio adnoddau GTAGC orau i reoli'r risgiau hyn.
- Cwblhau **tasgau gweithdy ar y cyd** gyda GTAGC, er mwyn datblygu opsiynau modelu ymarferol.
- Cwblhau ymarfer **adolygiad o'r ddarpariaeth tân**, gan ddarparu adroddiad ysgrifenedig sy'n crynhoi holl ganfyddiadau'r adolygiad ynghyd ag argymhellion.
- Cyflawni rhagor o ymarferion **dadansoddi dewisol** er mwyn gwella'r model o'r ddarpariaeth tân o fewn GTAGC.

YOUR FIRE AND RESCUE SERVICE
RIGHT PLACE
RIGHT TIME
RIGHT SKILLS

# Ymgysylltu cyn yr Ymgynghoriad

**Roedd y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cynnwys:**

- Amrywiaeth eang o staff ar draws y Gwasanaeth, gan gynnwys sesiynau briffio ar gyfer yr Uwch Dîm Arweinyddol, Rheolwyr Canol a Goruchwylio – Ebrill a Mai 2023.
- Cyfarfodydd unigol gyda 17 o Wleidyddion ac Arweinwyr Cynghorau – Mai a Mehefin 2023.
- Tri chyfarfod gydag amryw o gyrff cynrychioliadol – 18 Ebrill, 22 Mai, 19 Mehefin 2023.
- Pedwar grŵp sy'n cynrychioli cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb – Mai a Mehefin 2023.
- Canllawiau arbenigol annibynnol gan y Sefydliad Ymgynghori ynghylch arferion gorau a sicrwydd yn ystod y cyfnod cyn-ymgynghori – drwy gydol y cyfnod cyn-ymgynghori
- Panel Gweithredol a Phwyllgor Archwilio ‘rAwdurdod Tân ac Achub – 19 Mehefin 2023.
- Sesiwn adborth ar-lein i randdeiliaid (gan gynnwys staff a chynrychiolwyr cymunedol) – 19 Mehefin 2023.

# Cynigion cychwynnol i’w hystyried gan Weithgor yr Awdurdod Tân ac Achub

| | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 | Opsiwn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Newidiadau i Orsafoedd a/neu Systemau Dyletswydd** | Aros yr un fath – dim newidiadau i’r Systemau Dyletswydd | Cynyddu adnoddau er mwyn newid rhwng 1 a 5 gorsaf ar-alwad i fod yn rhai Amser Cyflawn yn ystod y dydd | Defnyddio staff Amser Cyflawn presennol mewn ffordd wahanol | Defnyddio staff Amser Cyflawn presennol mewn ffordd wahanol a lleihau nifer y staff Amser Cyflawn | Defnyddio staff Amser Cyflawn presennol mewn ffordd wahanol a lleihau nifer y staff Amser Cyflawn a staff Ar-alwad |
| **Cyflwyno Gorsafoedd Amser Cyflawn** | Dim newid | Staffio dydd mewn 1-5 o orsafoedd ychwanegol | Staffio dydd mewn 3 o orsafoedd ychwanegol | Staffio dydd mewn 3 o orsafoedd | Staffio dydd mewn 3 o orsafoedd |
| **Cau Gorsafoedd** | Dim | Dim | Dim | Dim | Gostyngiad o 5 gorsaf ar-alwad |
| **Niferoedd Staff Amser Cyflawn** | Dim newid | 14 – 70 o Ddiffoddwyr Tân amser cyflawn ychwanegol<br>(angen 14 ar gyfer pob gorsaf) | Dim newid | 22 yn llai o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn | 36 yn llai o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn |
| **Niferoedd Staff Ar-alwad** | Dim newid | Dim newid | Dim newid | Gostyngiad o 12% | Gostyngiad o 19% |

# Y Gwaith Datblygu Opsiynau – sleid gyntaf

| Gweithgor yr Awdurdod Tân | Crynodeb | Canlyniadau/Penderfyniadau |
|---|---|---|
| Cyfarfod Gweithgor 1<br>14/3/23 | Cyflwyno’r Tîm ac ymgynghorwyr ORH a rhoi blas ar ‘yr hyn sy’n bosibl' gan ddefnyddio arbenigedd yr ymgynghorwyr.<br>Trafod yr angen i wneud penderfyniadau anodd. | |
| Cyfarfod Gweithgor 2<br>4/4/23 | Trafodwyd y 5 opsiwn posibl fel y'u cyflwynwyd ar y sleid flaenorol.<br>**Trafodwyd canfyddiadau cychwynnol y gwaith cyn-ymgynghori:**<br>2 sylw o’r sesiwn briffio cyn-ymgynghori â rhanddeiliaid; Ym mha ffyrdd bydd y newidiadau’n effeithio ar Ddiogelwch Cymunedol a'r gallu i ymdrin yn effeithiol â thanau gwyllt; Mae'n bwysig nad yw’r newidiadau’n effeithio ar y gallu i ymateb i ddigwyddiadau ar raddfa fawr; Sylwadau o’r sesiwn briffio cyn-ymgynghori ag Undeb y Brigadau Tân; Pryderon am staff a fydd yn cael eu heffeithio; Ni ddylid gwneud newidiadau oherwydd cyfyngiadau ariannol; Sylwadau o’r sesiwn briffio cyn-ymgynghori â Rheolwyr Canol; Pwyslais ar weithgarwch atal ac amddiffyn.<br>Cyflwynwyd canlyniadau’r gwaith **Proffilio risg ymgynghori opsiynau’r Gweithgor,** er mwyn asesu risgiau pob opsiwn ac i gynhyrchu proffil risg ymgynghori a dadansoddiad SWOT ar gyfer pob opsiwn, gan ystyried: Y Cyhoedd, Rheolwyr, Gwleidyddol, Cyfreithiol, Arweinyddiaeth. | Peidio â newid, gan dderbyn y risg o ran argaeledd – angen i’r diffyg gael ei fodloni'n llawn<br>Newid y modelau criwio a ddenfyddir yn y Rhyl, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam, gan ychwanegu 3 gorsaf staff dydd ond gan leihau'r gofyniad cyllidebol<br>Newid y modelau criwio a ddefnyddir yn y Rhyl, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam, gan gau 5 gorsaf RDS ac ychwanegu 2 orsaf staff dydd, a thrwy hynny leihau'r gofyniad cyllidebol ymhellach |

# Y Gwaith Datblygu Opsiynau – parhad 1

| Gweithgor yr Awdurdod Tân | Crynodeb | Canlyniadau/Penderfyniadau |
|---|---|---|
| Cyfarfod Gweithgor 3 2/5/23 | Trosolwg o'r gwaith proffilio risg a'r ymatebion a gafwyd yn y sesiynau briffio cyn-ymgynghori cychwynnol; trafodwyd yr opsiynau posibl a ddewiswyd yng Ngweithdy 2:<br>**Opsiwn 1:** Aros fel yr ydym a derbyn y risg o ran argaeledd<br>**Opsiwn 2:** Model sy'n ailddosbarthu staff ond yn cadw lleoliadau ein gorsafoedd, gan ganiatáu 3 gorsaf staff dydd ychwanegol ac arwain at arbedion o tua £1.1 miliwn, gan leihau'r diffyg o £6 miliwn amcangyfrifedig.<br>**Opsiwn 3:** Model sy'n cadw lleoliadau ein gorsafoedd amser cyflawn, yn ogystal ag ychwanegu dwy orsaf staff dydd, ond cau 5 gorsaf ar-alwad, gan arwain at arbedion o dros 2.4 miliwn i leihau'r diffyg o £6 miliwn.<br>Penderfynu a oes angen archwilio pob un neu rai o'r opsiynau hyn yn fanylach. | **Opsiwn 1:** Mae gormod o risg na fydd yr Awdurdod Tân yn mynd i'r afael â'r heriau argaeledd. Mae bodloni'r diffyg o tua £6m hefyd yn rhy ddrud.<br>**Opsiwn 2:** Gwelliannau posibl o ran argaeledd, mwy o waith atal ac amddiffyn mewn ardaloedd gwledig, gostyngiad yn y diffyg ariannol, mae'r model yn haeddu dadansoddiad a modelu pellach er mwyn ei gyflwyno yn y Gweithgor nesaf.<br>**Opsiwn 3:** Nid oedd cau gorsafoedd a thorri niferoedd staff amser cyflawn ymhellach yn opsiwn yr oedd aelodau am ei ddilyn ymhellach.<br>Tîm Prosiect i weithio gydag ORH ar fodelau ymateb o fewn Opsiwn 2 er mwyn eu cyflwyno yn y Gweithgor nesaf.<br>Gwaith cyn-ymgynghori i barhau i fod yn sail ar gyfer yr ymgynghoriad llawn. |
| Cyfarfod Gweithgor 4 06/06/23 | Ailadrodd nod yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a chynnwys y tri Gweithgor cyntaf; trafod yr opsiynau posibl a ddewiswyd yng Ngweithdy 3, rhagor o wybodaeth am ddigwyddiadau; trafod cynnydd y gwaith cyn-ymgynghori, gan gynnwys cyfathrebu â chyrff cynrychioliadol; penderfynu a yw'r Gweithgor yn barod i argymell opsiynau i'r Awdurdod Tân, drwy'r Panel Gweithredol, ar gyfer ymgynghoriad llawn.<br>**Cynnig 1**: Dim newid, mae'r risg argaeledd yn cael ei dderbyn ac mae'r gwaith ymyrraeth argaeledd dyddiol yn dod i ben. Mae'r diffyg amcangyfrifedig yn cael ei ariannu'n llawn<br>**Cynnig 2:** Mae'r diffyg amcangyfrifedig yn cael ei ariannu'n llawn ac mae GTAGC yn cynnal model ymateb amser cyflawn 24 awr yn y gorsafoedd amser cyflawn presennol ond yn diwygio'r gwasanaeth i ychwanegu 3 gorsaf staff dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau<br>**Cynnig 3:** Newid y Rhyl a Glannau Dyfrdwy i fod yn orsafoedd staff dydd a thynnu trydydd peiriant tân o Wrecsam. Cyflwyno 3 gorsaf staff dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau. Bydd gostyngiad o 22 yn nifer y staff amser cyflawn yn arwain at arbediad o £1.1 miliwn yn erbyn y diffyg amcangyfrifedig.<br>**Cynnig 4:** Newidiadau amser cyflawn yr un fath â Chynnig 3, ond dim ond 2 orsaf staff dydd a gyflwynir a bydd 5 gorsaf RDS yn cau. Bydd gostyngiad o 36 yn nifer y staff amser cyflawn a chau 5 gorsaf RDS yn arwain at arbediad o £2.4 miliwn yn erbyn y diffyg amcangyfrifedig. | **Cynnig 1**: Dim newid, mae'r risg argaeledd yn cael ei dderbyn ac mae'r gwaith dyddiol o reoli ymyrraeth argaeledd yn dod i ben. Mae'r diffyg amcangyfrifedig yn cael ei ariannu'n llawn.<br>**Cynnig 2:** Mae'r diffyg amcangyfrifedig yn cael ei ariannu'n llawn ac mae GTAGC yn cynnal model ymateb amser cyflawn 24 awr yn y gorsafoedd amser cyflawn presennol ond yn diwygio'r gwasanaeth i ychwanegu 3 gorsaf staff dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau.<br>**Cynnig 3:** Newid y Rhyl a Glannau Dyfrdwy i fod yn orsafoedd staff dydd a thynnu trydydd peiriant tân o Wrecsam. Cyflwyno 3 gorsaf staff dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau. Bydd gostyngiad o 22 yn nifer y staff amser cyflawn yn arwain at arbediad o £1.1 miliwn yn erbyn y diffyg amcangyfrifedig.<br>**Cynnig 4:** Newidiadau amser cyflawn yr un fath â Chynnig 3, dim ond 2 orsaf staff dydd a gyflwynir a bydd 5 gorsaf RDS yn cau. Bydd gostyngiad o 36 yn nifer y staff amser cyflawn a chau 5 gorsaf RDS yn arwain at arbediad o £2.4 miliwn yn erbyn y diffyg amcangyfrifedig. |

# Y Gwaith Datblygu Opsiynau – parhad 2

| Gweithgor yr Awdurdod Tân | Crynodeb | Canlyniadau/Penderfyniadau |
|---|---|---|
| **Cyfarfod Gweithgor 5 – Ehangu i'r Awdurdod Tân llawn 22/06/2023** | Ailadrodd nod yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a'r gweithdai blaenorol; adborth cyn-ymgynghori; trafod y cynigion a ddewiswyd yng Ngweithgor 4; penderfynu a yw'r holl gynigion, neu rai ohonynt, yn ddigon da i'w cyflwyno i'r Awdurdod Tân llawn cyn yr ymgynghoriad.<br><br>Nodwyd nad oes gan Opsiwn 3 gefnogaeth broffesiynol y Prif Swyddog Tân. Y rheswm am hyn yw nad yw'n gwella'r ddarpariaeth frys, gan arwain at ostyngiad o 2,087 yn y nifer o aelwydydd yng Ngogledd Cymru sy'n gallu derbyn ymateb o fewn 20 munud. Mae hefyd yn diddymu 74 o swyddi diffoddwyr tân, gan leihau capasiti Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) i ddelio ag unrhyw Ddigwyddiadau Mawr yn y dyfodol. Yn ogystal â hyn, ni ellir ystyried uno gorsafoedd tân RDS nes y bydd y tair gorsaf staff dydd ychwanegol wedi'u sefydlu ac yn gallu sicrhau darpariaeth frys yn ystod y dydd. | Cafodd dau opsiwn eu diystyried gan yr Aelodau:<br>• Parhau â'r trefniadau presennol o ran darpariaeth frys, gan dderbyn y risg o ran argaeledd yn ystod y dydd, a rhoi'r gorau i adleoli diffoddwyr tân yn ddyddiol er mwyn lliniaru'r risgiau hynny.<br>• Parhau â'r trefniadau presennol o ran darpariaeth frys, a chyflwyno tair gorsaf staff dydd ychwanegol am gost ychwanegol o £2.25 miliwn.<br><br>I grynhoi, gwrthodwyd y sefyllfa bresennol oherwydd yr anghydraddoldeb o ran ymateb y gwasanaeth ledled Gogledd Cymru, oherwydd y risgiau cysylltiedig i ddiffoddwyr tân ac i'r cyhoedd ac oherwydd y costau cysylltiedig.<br><br>Nododd yr aelodau eu bod yn dymuno ymgynghori ar yr opsiynau hynny sy'n ceisio bodloni nodau'r adolygiad drwy ailddyrannu diffoddwyr tân presennol i orsafoedd staff dydd newydd – fel yr amlinellir yn y tabl o'r opsiynau a gyflwynwyd sydd ar y sleid derfynol. |
| **Cyfarfod Awdurdod Tân Llawn 17/7/23** | Gofynnwyd i'r aelodau:<br><br>• Gymeradwyo'r argymhelliad i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar opsiynau 1 a 2; neu<br>• Gytuno i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar opsiynau 1, 2 a 3 | Pleidleisiodd yr aelodau yn **unfrydol** o blaid dechrau ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch Opsiynau 1,2 a 3. |

YOUR FIRE AND RESCUE SERVICE
RIGHT PLACE
RIGHT TIME
RIGHT SKILLS

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Cliciwch isod i ddarllen holl ddogfennaeth y Gwaith o Werthuso'r Opsiynau

The Options Appraisal Journey

YOUR FIRE AND RESCUE SERVICE
RIGHT PLACE
RIGHT TIME
RIGHT SKILLS

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Cliciwch isod i ddarllen yr holl adborth cyn-ymgynghori a dderbyniwyd gan grwpiau ffocws rhanbarthol a grwpiau ffocws Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan staff a chyrff sy'n cynrychioli staff:

Feedback
nal and EDI Focus (

Feedback Senior
ire and Rescue Sta

Feedback Fire
escue Middle Man

Feedback Fire
Brigades Union

# Grwpiau Buddiant Cydraddoldeb

Yn ystod y cyfnod cyn-ymgynghori, gofynnwyd i nifer o grwpiau buddiant cydraddoldeb gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Gellir disgrifio 28 o’r grwpiau sefydledig yn fras fel elusennau cydraddoldeb lleol, grwpiau cymunedol, grwpiau cynghori ar gydraddoldeb, grwpiau cymorth a sefydliadau ffydd o bob rhan o Ogledd Cymru.

Fel rhan o’r cam cyn-ymgynghori, roedd methodoleg y gwaith ymgysylltu yn cynnwys cynnal grwpiau ffocws ar-lein a wyneb yn wyneb, tra bod rhai grwpiau'n dymuno cyfathrebu dros e-bost a thros y ffôn i ddechrau. Mae'r ystod o ddulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd wedi lledaenu’r rhwyd ac fe wnaethom lwyddo i gasglu adborth. Defnyddiwyd yr adborth i lunio'r ffyrdd y byddwn yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â gwahanol randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad llawn ac mae barn grwpiau buddiant cydraddoldeb wedi cyfrannu at ddatblygu'r tri opsiwn.

I grynhoi, ar y cyfan roedd yr adborth cyn-ymgynghori a gafwyd gan grwpiau buddiant cydraddoldeb yn ymwneud â gweithgareddau atal a gallu'r Gwasanaethau i fynychu digwyddiadau cymunedol, i gynnal archwiliadau diogel ac iach, ac i ddarparu cyngor diogelwch tân yn y dyfodol. Felly, datblygwyd y tri opsiwn i fod â rhywfaint o ffocws ar weithgarwch atal, ac mae'r llenyddiaeth a ddarperir yn tynnu sylw at yr effaith bosibl ar weithgareddau cyflwyno. Bydd dau opsiwn yn gwella’r gallu i wneud gwaith atal yn y gymuned leol. Roedd y gwaith ymgysylltu yn galluogi'r Gwasanaeth i egluro bod y rhan fwyaf o weithgarwch atal yn cael ei gyflawni gan staff atal, er bod timau gweithredol yn ychwanegu gwerth. Ni fynegwyd unrhyw bryder arall yn ystod y cyfnod cyn-ymgynghori.

## Crynodeb: Y 3 Opsiwn Terfynol a ddewisiwyd ar gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus

Mae Gweithgor yr Awdurdod Tân ac Achub wedi adolygu gwaith modelu ariannol, modelu gweithlu a modelu cynaliadwyedd yr opsiynau, gan wneud addasiadau mewn ymateb i'r adborth a gafwyd gan randdeiliaid a defnyddio meini prawf gwerthuso yn seiliedig ar y canynol:

- **Darpariaeth frys** – sut mae ein peiriannau tân yn ymateb i alwadau brys.
- **Gwasanaethau amddiffyn ac atal** – sut rydym yn cadw eich cartrefi a'ch busnesau yn ddiogel.
- **Fforddiadwyedd** – cadw ein gwasanaethau mor fforddiadwy â phosibl, gan gynnig y gwerth gorau am arian.
- **Gweithlu** – effaith y newidiadau ar ein timau.
- **Gwasanaeth teg a chyfartal** – sicrhau bod staff yn y lle iawn, ar yr amser iawn, gyda'r sgiliau iawn.
- **Gwerth cymdeithasol** – cydnabod yr effaith mae'r newidiadau a wnawn yn ei chael ar ein cymunedau.

Roedd hyn yn golygu na chafodd yr Opsiynau 1 a 2 gwreiddiol eu datblygu ymhellach fel opsiynau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'r posibilrwydd o gau gorsafoedd tân yn parhau fewn y set o opsiynau, a hynny gan fod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi pleidleisio'n unfrydol o blaid ceisio adborth y cyhoedd ar sut y gallai gostyngiadau o fewn y gwasanaethau arwain at leihau costau i aelwydydd.

Cyflwynwyd y 3 Opsiwn terfynol gerbron Cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 17 Gorffennaf 2023, a chafwyd **pleidlais unfrydol** o blaid cyflwyno'r tri opsiwn i ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 21 Gorffennaf a 22 Medi 2023.

| | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 |
|---|---|---|---|
| **Newidiadau i Orsafoedd a/neu Systemau Dyletswydd** | Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn symud i Griwio Dydd ac adleoli staff y System Ddyletswydd Wledig | Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn symud i Staffio Dydd, chael gwared ar 3ydd peiriant tân Wrecsam ac adleoli staff y System Ddyletswydd Wledig | Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn symud i Staffio Dydd, chael gwared ar 3ydd peiriant tân Wrecsam ac adleoli staff y System Ddyletswydd Wledig |
| **Gorsafoedd Amser Cyflawn wedi'u Cyflwyno** | Staffio Dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau | Staffio Dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau | Staffio Dydd ym Mhorthmadog a Dolgellau |
| **Cau Gorsafoedd** | Dim | Dim | Abersoch, Biwmares, Llanberis, Cerrigydrudion a Chonwy |
| **Niferoedd Staff Amser Cyflawn** | Dim Newid | 22 yn llai o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn<br>Gostyngiad o 12% ↓ | 36 yn llai o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn<br>Gostyngiad o 19% ↓ |
| **Niferoedd Staff Ar-Alwad** | Dim Newid | Dim Newid | 38 yn llai o Ddiffoddwyr Tân Ar-Alwad<br>Gostyngiad o 8% ↓ |
| **Canran y cartrefi yng Ngogledd Cymru sy'n derbyn ymateb 1af o fewn 20 munud** | Wedi cynyddu i 92.7% ↑ | Wedi cynyddu i 92.2% ↑ | Wedi gostwng i 91.5% ↓ |
| **Y gwahaniaeth rhwng y model ymateb presennol** | 2,148 yn fwy o gartrefi yn derbyn ymateb o fewn 20 munud ↑ | 321 yn fwy o gartrefi yn derbyn ymateb o fewn 20 munud ↑ | 2,087 yn llai o gartrefi yn derbyn ymateb o fewn 20 munud ↓ |
| **Newid o ran Gweithgareddau Atal ac Amddiffyn fesul blwyddyn** | Cynnal 1,740 o archwiliadau diogel ac iach ychwanegol.<br>Mwy o ymgysylltu â diwydiant a busnes mewn ardaloedd gwledig. ↑ | Cynnal 1,740 o archwiliadau diogel ac iach ychwanegol.<br>Mwy o ymgysylltu â diwydiant a busnes mewn ardaloedd gwledig. ↑ | Cynnal 1,160 o archwiliadau diogel ac iach ychwanegol.<br>Mwy o ymgysylltu â diwydiant a busnes mewn ardaloedd gwledig. ↑ |
| **Gwerth Cymdeithasol** | Mwy o ymgysylltiad cymunedol mewn ardaloedd gwledig e.e. ymweliadau ysgol, ymgyrchoedd diogelwch, digwyddiadau partneriaeth. Mwy o botensial ar gyfer cyfleoedd swyddi amser cyflawn yn y dyfodol yn Ne Sir Ddinbych a Gwynedd | Mwy o ymgysylltiad cymunedol mewn ardaloedd gwledig e.e. ymweliadau ysgol, ymgyrchoedd diogelwch, digwyddiadau partneriaeth. Mwy o botensial ar gyfer cyfleoedd swyddi amser cyflawn yn y dyfodol yn Ne Sir Ddinbych a Gwynedd | Llai o ymgysylltiad cymunedol a llai o gyfleoedd swyddi yn y 5 ardal lle byddai gorsafoedd ar-alwad yn cael eu cau. Mwy o botensial ar gyfer cyfleoedd swyddi amser cyflawn yn y dyfodol yn Ne Gwynedd |
| **Amcangyfrif o'r gost fesul cartref y flwyddyn** | £171.02 | £167.29 | £162.88 |
| **Y gwahaniaeth rhwng cost 23/24 fesul cartref y flwyddyn** | Cynnydd o £20.36 | Cynnydd o £16.63 | Cynnydd o £12.22 |

↓ newid negyddol ↑ newid positif